



# **Gwirfoddoli a Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**

*Ionawr 2018*

*Comisiynwyd gan WCVA*

*Sandy Clubb*

# *Cynnwys*

|   |    |
|---|----|
| 1 Cefndir   | 2  |
| 2 Crynodeb  | 2  |
| 3 Beth mae cynnwys gwirfoddolwyr i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ei olygu? | 3  |
| 4 Cyd-destun  | 4  |
| 5 Cyfleoedd   | 7  |
| 6 Bygythiadau   | 10 |
| 7 Dyfodol gwirfoddoli yn y sector cyhoeddus                                     | 13 |
| 8 Cwestiynau i benderfynwyr   | 14 |
| 9 Camau nesaf   | 14 |
| Atodiad: Sefydliadau sy'n aelodau o Rwydwaith Gwirfoddoli Cymru                 |    |

## 1 Cefndir

Datblygwyd y papur hwn gan Rwydwaith Gwirfoddoli Cymru (VWN) mewn ymgynghoriad â'i aelodau ar draws amrywiol sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus<sup>1</sup>.

Mae VWN yn disgrifio gweledigaeth ar gyfer modelau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwahanol yng Nghymru sy'n cynnwys gwaith gwirfoddol sy'n cael ei gwmpasu a'i gefnogi'n briodol.

Cyflwynir y papur yn Gofod3 ar yr 8fed o Fawrth 2018, gyda thrafodaeth i ddilyn gan banel o arbenigwyr.

## 2 Crynodeb

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn newid oherwydd ffactorau gan gynnwys yr angen i fodloni galw cynyddol gyda llai o adnoddau. Gyda'r newid hwn daw nifer o gyfleoedd a heriau, a chynigia'r potensial i ailystyried rôl gwirfoddolwyr a gweithredu cymdeithasol i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan wirfoddolwyr eisoes rôl bwysig i'w chwarae i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, a gyda'r cynllunio a'r gefnogaeth iawn, mae'n bosibl cyflawni mwy a sicrhau canlyniadau gwell fyth. Bydd gwneud cynlluniau mewn da bryd ar gyfer gwirfoddolwyr, ynghyd ag arweiniad cadarn gan Lywodraeth Cymru, gan arweinwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn hanfodol.

*'Mae creu mwy o le ym maes cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus i bobl wneud eu rhan, siapio'u gwasanaethau a chyfrannu atynt yn ganolog [i'r gwaith hwn]...rydyn ni eisiau gwaith gwirfoddol sy'n galluogi pobl i roi o'u hamser mewn ffyrdd sy'n ystyrlon ac yn bwysig iddyn nhw, mewn rolau sy'n cael y gefnogaeth briodol.'*

Fiona Liddell,  
Rheolwr Datblygu Gwirfoddolwyr, WCVA

Mae manteision amrywiol iawn i'w cael o gynnwys mwy o wirfoddolwyr, gan gynnwys; gwell canlyniadau mewn gwasanaethau cyhoeddus; manteision i iechyd a lles gwirfoddolwyr; gwasanaethau sydd wedi'u dylunio'n well oherwydd cyfraniad cynyddol gan ddinasyddion; gwell lefelau recriwtio a chadw staff yn lleol o ganlyniad i wirfoddolwyr yn cael gwaith, a llawer, llawer mwy.

Mae rhwystrau i'w goresgyn, er enghraifft, ofnau y caiff gwirfoddolwyr eu defnyddio i guddio toriadau mewn cyllidebau. Fodd bynnag, mae llawer yn hysbys am yr hyn sydd eisoes yn gweithio, ac mae'r papur hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion am sut i

<sup>1</sup> Gweler Atodiad A am restr o'r sefydliadau sy'n aelodau o VWN.

sicrhau bod cyfraniad gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddiannus ac yn esgor ar y manteision gorau posibl.

Ymysg y cwestiynau a ofynnir i'r penderfynwyr y mae sut byddant yn cefnogi ac yn ariannu dulliau arloesol o gynnwys gwirfoddolwyr a sicrhau bod y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys rhoi cefnogaeth i fudiadau cymunedol y mae eu cyllid dan fygythiad neu eisoes wedi'i gwtogi.

### 3 Beth mae cynnwys gwirfoddolwyr i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ei olygu?

#### ❖ *Mathau o rolau*

Ymysg y rolau i wirfoddolwyr sy'n cyfrannu at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus y mae gyrwyr gwirfoddol (gweler Bocs A), gwirfoddolwyr plismona cymunedol, cyfeillachwyr lleol a llawer mwy. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cyfrannu at reoli asedau megis llyfrgelloedd a drosglwyddwyd i ofal y gymuned.

#### (B)

Mae **Gwirfoddolwyr Robin** yn gweithio yn y tri prif ystyby ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mewn 19 o ystybytai cymunedol. Maent yn rhoi gwahanol fathau o help i gleifion ac ymwelwyr. 'Cyfarfod a chyfarch pobl a wnaif fi'n bennaf, dyma fu fy mhrif rôl ers imi ddechrau ac rwyf wrth fy modd. Ond mae'n golygu fy mod yn dod ar draws llawer o bobl sy'n edrych braidd ar goll. Bydd llawer ohonynt ddim yn gwybod ein bod ni yma nes inni siarad gyda nhw' meddai Edward Parr, sydd wedi gwirfoddoli fel Robin ers iddo ymdeol.

chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gan fudiadau trydydd sector (Bocs C). Mae eraill yn gwirfoddoli yn fwy anffurfiol fel rhan o grwpiau cymunedol sy'n dod at ei gilydd i weithredu ar faterion sy'n lleol iddyn nhw.

#### (A)

Mae **Gyrwyr Ceir Gwirfoddol Ambiwylans Cymru** yn rhan bwysig o'r Gwasanaeth Gofal Cleifion ac mae'n cynnwys tîm o yrwyr ymroddedig sy'n defnyddio eu ceir eu hunain i gynorthwyo i gludo cleifion i ysbytai a chlinigau ar draws Cymru.

Meddai Alison, sy'n un o'r Gyrwyr Ceir Gwirfoddol: 'Dechreuais yrru dros y gwasanaeth ambiwlans ychydig flynyddoedd yn ôl pan oedd fy nhad yn sâl ac yn cael problemau i fynd a dod o'r ysbyty. Roedd yn fodd o ad-dalu rhywfaint o'r help a dderbyniodd ef.'

#### ❖ *Modelau rheoli gwirfoddolwyr*

Caiff rhai gwirfoddolwyr eu rheoli a'u cefnogi yn uniongyrchol gan y staff yn y sector cyhoeddus (Bocs B), ac mae eraill yn ymwneud â

#### (C)

Yn ystod wythnos gwirfoddolwyr 2017, fe wnaeth **Hosbis Dewi Sant** gdnabod **cyfraniad aruthrol** ei wirfoddolwyr. Mae'r elusen sy'n rhoi gofal arbenigol i oedolion â salwch datblygedig neu sydd angen gofal diwedd oes, yn defnyddio dros 350 o wirfoddolwyr ar draws Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r rolau yn amrywio o gynorthwyo yn y siop, ar y dderbynfa a chodi arian i gynorthwyo ar y wardiau, gyrru cleifion a helpu yn y caffi. Yn 2017 amcangyfrifwyd bod gwirfoddolwyr wedi rhoddi dros 70,000 o oriau i'r hosbis.

#### ❖ *Ffocws y papur hwn*

Wrth ystyried sut gallai neu sut dylai gwirfoddoli dyfu a chael eu cefnogi yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, mae gan VWN ddi-ddordeb arbennig mewn archwilio partneriaethau a modelau cyflenwi arloesol a rhwng y trydydd sector a chyrrff cyhoeddus (Bocs D).

#### (D)

Mae [Solva Care](#) yn Solfach, Sir Benfro, yn darparu gofal yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys gwirfoddolwyr i gyflawni ei weledigaeth o wasanaeth o ansawdd sy'n canolbwyntio ar y cleient. Sefydlwyd Solva Care yn 2015 fel menter gymdeithasol mewn ymateb i ymgynghoriad a ganfu'r angen am fwy o ofal cartref yn y gymuned.

Cafodd y prosiect arian grant i ddechrau i sefydlu peilot, gan gynnwys cyllid ar gyfer Cydlynedd, ac mae'n gweithio'n agos â meddygfeydd ac ysbytai lleol. Yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn gweithredu dywedodd 86% o'r rheini a gafodd fudd o'r gwasanaeth y byddent yn defnyddio'r gwasanaeth eto. Ymysg yr heriau y mae'r prosiect yn eu hwynebu y mae 'y pethau sy'n rhwystru'r darparwyr presennol rhag cydweithredu â chynlluniau cymunedol bychain, gan gynnwys biwrocratiaeth a diffyg mynediad i fforymau strategol'.

## 4 Cyd-destun

### Ffactorau allanol

Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu pwysau o ddwy ochr, oddi wrth alw cynyddol a chyfyngu parhaus ar adnoddau oherwydd toriadau mewn cyllid. Mae [Lefelau cynyddol o ordewdra a diffyg ymarfer corff](#), ynghyd â [phoblogaeth sy'n heneiddio](#) a galw cynyddol am [wasanaethau iechyd meddwl](#), ond yn ychydig o'r ffactorau sy'n cynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gofal.

Oherwydd ffactorau cymdeithasegol ac economaidd mae pobl yn teimlo mwy o unigrwydd ac unigedd cymdeithasol yn ddiweddar, [pobl hŷn yn benodol](#). Profwyd bod unigrwydd yn cael [effaith niweidiol ar iechyd a lles](#), ond nid yw'r ddarpariaeth gwasanaethau statudol ei hun yn gallu delio'n effeithiol â hyn.



Gwelwn ar hyn o bryd [fwy o ffocws](#) ar rôl gwirfoddolwyr i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, yn y DU a thu hwnt, i helpu i gyflenwi gwell gwasanaethau cyhoeddus a hefyd i leihau'r galw.

Mae natur gwaith a chyflogaeth gyflogedig hefyd yn newid. Mae [nifer fwy](#) o bobl yng Nghymru yn hunan gyflogedig a cheir mwy o waith rhan amser (cyfeirir at hyn yn aml fel 'yr economi gig'). Mae yna hefyd duddiadau mwy ar y gorwel a chaiff y rhain effaith fawr ar waith cyflogedig, er enghraifft effeithiau [awtomeiddio cynyddol](#).

Mae'r trydydd sector hefyd yn cael amser anodd dros ben yn ariannol, gyda'r pwysau aruthrol ar gyllid yn effeithio ar lawer o sefydliadau sy'n colli nifer o lifoedd nawdd ar yr un pryd (er enghraifft Cyrff Angori Cymunedol yng Nghymru, gyda rhai ohonynt yn colli cyllid ar yr un pryd dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf). Mae hyn yn rhoi cryn bwysau ar benderfynwyr i feddwl yn greadigol am y ffordd y mae'n cefnogi ac yn ariannu sefydliadau a gwasanaethau allweddol.

Mae'r tirlun gwirfoddoli yn newid, oherwydd amrywiol ffactorau [sy'n gwbl hysbys a dealladwy](#), gan gynnwys nodweddion cenhedlaeth y cynnydd (*baby boomers*) sy'n ymdeol, galwadau cynyddol ar amser pobl a'r angen am gyfleoedd diddorol a gwobrwyol i bobl wneud eu rhan. Mae'r oes lle'r arferai gwirfoddolwyr weithio'n hirdymor i un sefydliad yn ildio i oes lle mae pobl yn gwirfoddoli i 'bortffolio' o sefydliadau. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi cyfleoedd a heriau i sefydliadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr fel bod rhaid iddynt addasu eu harlwy i wirfoddolwyr i fodloni'r disgwyliadau newidiol.

Mae natur y twf yn yr economi gymdeithasol a thwf mentrau cymdeithasol yn creu mwy a mwy o gyfleoedd i bobl wneud eu rhan. Gallai'r twf hwn roi her i sefydliadau trydydd sector 'corfforaethol' mwy i'r dyfodol i ddarparu profiadau sydd mor foddhaol â'r rheini sydd ar gael gyda'r darparwyr llai.



## Cyd-destun Polisi

Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer cynyddu'r cyfleoedd i wirfoddolwyr i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn glir.

Nod [Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru \(2015\)](#) yw:

*Pennu cyfleoedd i gynnwys mwy o wirfoddolwyr i'w helpu i gyflawni ei pholisïau trawsbynciol yn ogystal â phennu lle y gellir cynnwys mwy o wirfoddolwyr mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus pwysig.'*

Mae [maniffesto](#) (2016-18) VWN yn ymateb i hyn gydag ymrwymiad i *ddyfanwadu ar y ffordd y mae mudiadau sector cyhoeddus yn defnyddio gwirfoddolwyr*. Drwy ddisgrifio



gweledigaeth yn y papur hwn ar gyfer sut gallai gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, mae VWN yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn.

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn annog i asedau gael eu trosglwyddo i berchnogaeth y gymuned:

*'Wrth i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ymddangos, bydd mwy o bwyslais ar gyfranogiad cyrff cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol a chymryd cyfrifoldeb dros asedau lleol.'* [Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru – canllawiau arferion gorau](#)

Mae'r arfer hwn yn trosglwyddo'n effeithiol y gwaith o redeg rhai gwasanaethau cyhoeddus i ddwylo gwirfoddolwyr, a chyflwynna hynny ei gyfleoedd a'i heriau ei hun o ran sicrhau llwyddiant (gweler adrannau diweddarach).

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) (2015) yn galluogi i fframwaith o waith mwyfwy cydgysylltiedig fynd rhagddo rhwng adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus, gan bwysleisio ar ddulliau ataliol, cydweithredu a meddwl yn yr hirdymor. Mae gan hyn oll y potensial i gael dylanwad positif ar ddyluniad gwasanaethau cyhoeddus, ac annog lle canolog i weithredu cymdeithasol dan arweiniad dinasyddion, seiliedig ar leoedd ym maes cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r [Strategaeth Ffyniant i Bawb](#), a lansiwyd ym mis Medi 2017, yn dangos bod y Llywodraeth yn awyddus i ehangu'r drafodaeth ynglŷn â sut gall weithio'n agosach gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Mae'r strategaeth yn dangos mai'n awr yw'r amser iawn i gyflwyno cwestiynau i benderfynwyr am sut bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r dull hwn (gweler y cwestiynau ar ddiwedd y papur hwn). Mae'r strategaeth yn datgan y dyheadau canlynol ar gyfer Cymru:

*...meithrin perthynas gynaliadwy â'r sector gwirfoddol, yn seiliedig ar y canlyniadau y mae pob un ohonom am eu cyflawni ar gyfer cymunedau, ac ar y model cyllido cywir ar gyfer gwneud hynny' ynghyd ag ymrwymiad 'i ni a'n partneriaid weithio mewn ffordd gwbl wahanol'*

(Rhagair. Ffyniant i Bawb)

Mater arall sy'n berthnasol i'r meddylfryd ar wirfoddoli a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw'r gwaith polisi ac ymgysylltu a fu'n digwydd ynglŷn â'r agenda 'cymunedau cryf', fel y nodir yn y [papur trafod](#) hwn dan arweiniad WCVA. Mae cyfeiriad y gwaith ar gymunedau cryf i'r dyfodol yn ansicr adeg ysgrifennu hwn, fodd bynnag, mae'n bosibl bod yr amheuan a fynegwyd gan rai oedd yn rhan o'r drafodaeth yn berthnasol yma. Er enghraifft, mynegir ofnau mai ond gair teg am erydu gwasanaethau cyffredinol a disodli nawdd cymdeithasol yw cadernid (dyfynnir Friedli [yma](#)). Yn hytrach na'i fod yn grymuso

pobl leol i ddod ynghyd i ddechrau rhedeg llyfrgell, dyweder, gallai fod yn gwbl groes, gyda'r wladwriaeth yn troi cefn ar y bobl a gadael iddynt ddelio â phethau eu hunain.

Nod [Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru](#) yw cael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan yr uchelgais hon oblygiadau i sawl sector a maes polisi arall. Bydd y cyfleoedd cynyddol i ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr o bosibl, yn bwysig er mwyn galluogi ac yna darparu ar gyfer twf yn nifer y bobl sydd eisiau byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 5 Cyfleoedd

Mae VWN yn cydnabod y cyfleoedd canlynol sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli ym maes gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:

- **Canlyniadau gwell:** gall gwirfoddoli arwain at well canlyniadau wrth gyflenwi gwasanaethau, gan ychwanegu at waith aelodau staff cyflogedig nid ei ddisodli (Bocs E).
- **Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd:** ceir cyfleoedd ar draws y sector i roi gweithredu cymdeithasol a chydgyhyrchiant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus. Yng Nghymru, y dull gweithredu hwn yw ffocws [Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#)

### (F)

Cynllun cyfeillio mewn ysbytai ydy [Prosiect Blodau Haul GAVO](#). Mae'n rhedeg mewn 3 ysbyty, Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach, Ysbyty Aneurin Bevan yng Nglyn Ebwy a Chanolfan Adnoddau Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni. Mae'r holl gleifion mewn unedau un ystafell ac mae'r gwirfoddolwyr yn ymuno â staff y prosiect i helpu i leddfu teimladau o unigrwydd, diflastod ac unigedd y mae rhai cleifion yn eu teimlo. Mae'r cynllun yn cynnig gwasanaeth cyfeillio un i un a chyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, fel bingo a sesiynau hel atgofion. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng GAVO (y CGS lleol) a'r Bwrdd Iechyd.

### (E)

Yn ystod wythnos y Glas yn 2016, fe wnaeth **Cwnstabiaild Heddlu Arbennig gwirfoddol** roi dros 200 awr ym Mhrifysgol Bangor, gan helpu'r Heddlu wrth eu gwaith allan ar batrol yng nghampysau'r Prifysgol a'r tafarndai lleol. Mae'r Prif Arolygydd dros Wynedd ac Ynys Môn, Neale Lewis-Jones yn falch iawn o'i dîm: 'Mae bod yn Gwnstabl Arbennig yn ffordd wych o roi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned, datblygu sgiliau newydd neu ddysgu sut beth ydy gweithio i'r Heddlu, rydym yn falch o'r berthynas sydd gennym gyda Phrifysgol Bangor.'

Meddai un o'r gwirfoddolwyr, Dylan Thomas: 'Sawl tro fe glywyd y myfyrwyr yn dweud ei bod yn braf gweld cynifer ohonom allan ar droed, roedd yn hwb aruthrol i nifer y swyddogion oedd yn gweithio'. Mae'r ymgyrch [Step Up](#) yn annog mwy o bobl i wirfoddoli gyda'r Heddlu.

- **Arbedion effeithiolrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus:** gall gwirfoddolwyr yn aml ryddhau staff cyflogedig o weithgareddau y maent yn or-gymwys i'w gwneud, er enghraifft, pan fo staff nyrsio sydd wedi'u hyfforddi'n glinigol yn treulio amser yn annog cleifion i fwyta, neu hyd yn oed yn gwthio'r troli paned (Bocs F).
- **'Gwaith gwirfoddol er mwyn Effaith':** gwaith gwirfoddol sy'n



cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl - gan gynnwys effeithiau positif i'r gwirfoddolwyr eu hunain, gan symud oddi wrth fodel o 'wirfoddolwr' ar un llaw a 'buddiolwr' ar y llaw arall (Bocs G).

- **Y Gymraeg:** gall gwirfoddolwyr helpu i alluogi pobl i ryngweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn lleoliadau lle nad oes gan y staff cyflogedig y sgiliau Cymraeg priodol, er enghraifft, i ddarparu eiriolaeth, neu gwmnïaeth ochr gwely mewn ysbytai.

#### (G)

Prosiect credydau amser a grëwyd gan denantiaid y Community Lives Consortium yw **Time to Meet** a chawsant eu cyfsweld yn y [fideo hwn](#) gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Meddai Nicola Roberts, un o wirfoddolwyr Time to Meet: 'Fe benderfynon ni wneud y prosiect hwn gan nad oedd dim yn digwydd yn ein cymuned'. "Rydyn ni gyd yn defnyddio ein cryfderau" ychwanegodd Adam Crowley. Drwy gyfrwng eu gwaith gwirfoddol, mae cyfranogwyr Time to Meet yn helpu ei gilydd, ac maent hefyd yn ennill Credydau Amser y gallant eu defnyddio ar gyfer amrywiol dripiâu.

Myfyria Julie Davies, Swyddog Cyfranogaeth Tenantiaid yn Community Lives, ar sut dechreuodd y prosiect: 'Tua 14 mlynedd yn ôl roeddwn i'n gweithio gyda grŵp bychan o bobl fel rhan o grŵp Bywydau Tenantiaid. Dros y blynyddoedd aethant o nerth i nerth a phenderfynasant eu bod eisiau gweithio gyda'i gilydd i drefnu eu gweithgareddau eu hunain. A dyna pryd ganwyd Time to Meet'.

**Gwella ansawdd y cyfleoedd i wirfoddolwyr:** drwy rannu'r arfer gorau oddi wrth y sefydliadau hynny sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn dda ac yn cynllunio ar eu cyfer, yn ychwanegol at ddysgu oddi wrth esiamplau o fodolau llawn dychymyg a llwyddiannus sy'n gweithredu yn y 'gofod trothwyol' rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. (Bocs H).

#### (H)

Mae gan [Barnardo's Cymru](#) lawer o brofiad o ddefnyddio gwirfoddolwyr, a dros y blynyddoedd diwethaf, bu'n gweithio'n fwyfwy mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector eraill mewn 'consortia' o fwy na dau sefydliad. Amlygodd hyn y ffaith, er bod ganddynt eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain i reoli gwirfoddolwyr, y gallai'r rhain weithiau fod yn wahanol i rai'r sefydliadau'r oeddent yn cydweithredu gyda nhw.

I roi sylw i hyn, fe wnaeth Barnardo's Cymru ddatblygu offer i helpu sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd fel hyn, o'r enw [Arferion gorau i gydweithio â thrydydd partion a gwirfoddolwyr](#). Mae'r arweiniad yn darparu fframwaith ar gyfer trafod a datblygu cynllun gweithredu i roi ar waith ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt.

- **Llwybrau gwahanol at gyflogaeth:** gall gwaith gwirfoddol fod yn ffynhonnell profiad gwaith ddefnyddiol ac mae'n helpu i greu

#### (I)

Mae [The Wallich](#) yn darparu llety a gwasanaethau cymorth i bobl ddigartref. Mae ei brosiect BOSS (Meithrin Sgiliau a Llwyddiant) yn helpu pobl sydd ag euogfarn troseddol i ddychwelyd i waith drwy gyfrwng lleoliadau a gefnogir mewn partneriaeth â chyflogwyr. Mae'r prosiect hefyd yn helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i gyfleoedd i wneud gwaith gwirfoddol, ac mae gan The Wallich hanes hir o weithio'n llwyddiannus gyda gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn ddigartref. Bu gwirfoddoli yn llwybr at waith yn y tîm Wallich i nifer o bobl sydd wedi dod i gysylltiad â'r sefydliad fel hyn.

cyfalaf cymdeithasol. Mewn rhai achosion, gall rolau gwirfoddolwyr fynd ymhellach na hyn a dod yn llwybr at gyflogaeth. Gall gwaith gwirfoddol helpu sefydliadau i greu gweithlu lleol, gan helpu i wella cyfraddau cadw a llenwi bylchau recriwtio. (Bocs I).

- **Newid y cydbwysedd rhwng gwaith gwirfoddol a gwaith arall:** mae rhai sylwebyddion a gwleidyddion wedi galw am wythnos pedwar diwrnod yng ngoleuni'r heriau economaidd a'r cynnydd mewn awtomeiddio, ac mae rhai yn dadlau am [incwm sylfaenol cynhwysol](#) (mae nifer o [wledydd](#) yn treialu incwm sylfaenol cynhwysol). Bydd cysylltiad llai caeth rhwng gwaith ac incwm yn cael effaith aruthrol ar wirfoddoli a gweithredu cymdeithasol.
- **Cynnwys y sector preifat a chyflogwyr eraill:** ceir dadl dros ymgysylltu mwy â'r sector preifat, yn wir y sylfaen gyflogaeth ehangach, i alluogi gwirfoddolwyr i gyfranogi. Gall polisi cyflogaeth mewn sefydliad alluogi, annog a chefnogi gwirfoddolwyr mewn amrywiaeth mawr o ffyrdd.
- **Cydluniant cymunedol:** gall mwy o weithredu cymdeithasol greu rhwydweithiau a chynyddu cydluniant cymunedol, fel y mae cyfranogwyr yn y prosiect [Cities of Service](#) yn canfod ledled y byd. Mynwy yw'r Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i ymuno â'r rhwydwaith cynyddol hwn o leoedd sy'n ymrwymo i wneud gweithredu gan ddinasyddion yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus (Bocs J).

#### (J)

Mae'r [Volunteering for Wellbeing Project](#) ym Mynwy yn dwyn ynghyd amrywiol sefydliadau i ddarparu siop dan un to ar gyfer cyfleoedd i wirfoddoli mewn lleoliadau iechyd a llesiant. Cynhelir y prosiect gan Gyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth â Chanolfan Gymunedol Bridges ac wrth gydweithio â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, a dechreuodd y cyfan gyda phrosiect mapio gan gynnwys 28 o sefydliadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr, a 58 o staff yn yr awdurdod lleol a oedd yn rheoli gwirfoddolwyr.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddwyn pobl at ei gilydd i frwydro yn erbyn unigedd ac unigrwydd a chyda chymorth gwirfoddolwyr mae'n helpu pobl i aros yn annibynnol, yn weithgar ac yn iach. Gall hyn helpu i osgoi argyfwng ac ymyrraeth rhy gynnar gan wasanaethau cymorth statudol. Mae'r gwirfoddolwyr eu hunain yn dweud bod eu gweithgareddau gwirfoddoli yn rhoi hwb i'w llesiant gan wneud iddynt deimlo'n ddefnyddiol a themlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Fel rhan o'r dull cydgyssylltiedig hwn o gynnig cyfleoedd i wirfoddoli, mae CSF wedi ariannu cydlynnydd gwirfoddolwyr er mwyn ymestyn gwasanaeth cyfeillio llwyddiannus yn y Sir, Community Connections. 'Os wyf fi'n teimlo'n ddefnyddiol, rwy'n hapus' meddai Sue un o'r cyfeillachwyr gwirfoddol. Mae Mynwy wedi datblygu pecyn cymorth i gefnogi ei Rheolwyr Gwirfoddolwyr, ynghyd â pholisi gwirfoddoli.

#### (K)

Mae profiad [Cletwr](#) yn dangos y potensial i Sefydliadau Angori Cymunedol weddnewid cymunedau a'u dwyn ynghyd. Cynllun i ail-agor siop y pentref oedd yn wreiddiol, ond mae wedi mynd ymlaen i wneud llawer mwy.

'Mae Cletwr yn eiddo i'r gymuned. Mae gennym dros 50 o wirfoddolwyr rheolaidd yn gweithio ar wahanol dasgau, mae gennym bellach wyth o staff rhan-amser, ac rydym hefyd yn rhedeg amrywiaeth cynyddol o weithgareddau a gwasanaethau i'r trigolion lleol – Syndicet Prynu Olew, teithiau cerdded, llyfrgell Gymraeg, amser stori (yn Gymraeg) i blant bach, gwasanaethau dosbarthu parseli a llawer mwy – mae'r rhestr yn dal i dyfu.'

- **Sefydliadau Angori Cymunedol:** mae perchnogaeth yn holl bwysig i ymdrechion i rymuso cymunedau: perchnogaeth dros ofodau, adeiladau, asedau, proses gwneud penderfyniadau, ayb. Caiff y cyfryw berchnogaeth ei hymarfer gan wirfoddolwyr (neu ‘actifyddion’) fel rhan o ymdrechion creu lleoedd cymunedol, a gall fod yn ffactor hanfodol i helpu i sicrhau arbedion amrywiol i ddarpariaeth gwasanaethau’r wladwriaeth mewn ffordd draddodiadol, a hynny oll wedi’u cyd-gynhyrchu mewn ffordd decach. Gweler Bocs K.
- **Arwain drwy esiampl:** mae gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru y cyfle i alluogi a chefnogi diwylliant gwirfoddoli cynaliadwy a chreadigol sy’n cyfrannu at nodau WCFG, gan gynnwys drwy fod eu staff eu hunain yn gwneud gwaith gwirfoddol.

## 6 Bygythiadau

Mae aelodau VWN wedi tynnu sylw at y bygythiadau canlynol, yng nghyd-destun gwirfoddoli a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus:

- **Gwirfoddoli yn cael ei amgyffred fel ffordd o guddio toriadau mewn cyllidebau:** dylai gwaith gwirfoddol ychwanegu gwerth at rolau staff cyflogedig, nid eu disodli. Mae adroddiadau am wirfoddoli ym maes gwasanaethau cyhoeddus weithiau’n pwysleisio’r arbedion ar draul manteision eraill gwirfoddoli, a gall hyn arwain at amgyffredion negyddol ymysg staff yn ogystal â’r cyhoedd.

### (L)

Y gymuned yn Sain Ffraid ym Mro Morgannwg oedd y cyntaf i [gymryd y cyfrifoldeb dros redeg eu llyfrgell yn 2013](#). Mae’r llyfrgell yn esiampl o wasanaeth cyhoeddus lleol a drosglwyddwyd i ddwylo gwirfoddolwyr. Ymysg y gwersi a ddysgwyd y mae pwysigrwydd cael hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol i gymunedau sy’n cymryd cyfrifoldeb o’r fath, a hefyd y ffaith nad oes un dull gweithredu sy’n ‘addas i bawb’. Mae gallu unrhyw gymuned i redeg gwasanaeth fel hwn yn dibynnu ar yr unigolion, y sgiliau a’r asedau sydd ar gael i bob cymuned.

Yng [Nghwm Du](#), bu’r gymuned leol yn rhedeg tafarn a siop y pentref er 2000.

- **Trosglwyddo asedau heb gefnogaeth:** mae esiamplau da o drosglwyddo asedau (gweler Bocs L) yn dangos faint o gefnogaeth sydd ei hangen i brosiectau o’r fath lwyddo. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio nid dim ond ar y sgiliau sydd ar gael yn y gymuned, ond sgiliau comisiynwyr, er mwyn gweithio’n llwyddiannus mewn partneriaeth â chymunedau. Dengys [profiad](#)

[gyda phrosiectau tafarndai cymunedol](#) mai ond lleiafrif bychan o grwpiau sy’n debygol o fynd ymlaen yn llwyddiannus i redeg ased cymunedol lleol, fel tafarn, llyfrgell neu ganolfan.

- **Angorau cymunedol yn colli cyllid:** gall y ‘storm berffaith’ sy’n golygu colli llifoedd cyllid amryfal ar yr un pryd beri bygythiad i sefydliadau angori cymunedol. Er

mwyn caniatáu i arloesi ffynnu wrth gyd-gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth â'r trydydd sector, rhaid bod gan y cyfryw sefydliadau fynediad i gyllid craidd priodol pan maent fwyaf ei angen. Mae pobl leol yn dueddol o ymddiried yn llwyr mewn sefydliadau angori, a hefyd yn eu gwirfoddolwyr. Fel hyn, gall partneriaid statudol sy'n awyddus i gyd-gynhyrchu gwasanaethau weithio gyda sefydliadau angori o'r fath a drwyddynt heb orfod treulio amser eu hunain yn ennyn ymddiriedaeth<sup>2</sup>.

- **Methu â llwyr sefydlu gwaith gwirfoddol / cyflawni'r manteision:** mae gwaith gwirfoddol na chaiff ei gwmpasu na'i gefnogi'n briodol yn methu â chyflawni'n llwyr y manteision ar gyfer naill ai'r gwirfoddolwr na'r sefydliad. Gall hyn fod oherwydd methiant i gydnabod cost wirioneddol gwirfoddoli (nid yw gwirfoddoli am ddim ac mae angen cynllunio a darparu adnoddau ar ei gyfer, fel gyda staff arferol) neu oherwydd tueddiad i 'ychwanegu' gwirfoddoli yn rhy hwyr yn y broses gynllunio yn hytrach na gofyn ar y dechrau 'pa rôl y gallai gwirfoddolwyr ei chwarae i gyflenwi'r gwasanaeth hwn?'
- **Diffyg arweinyddiaeth:** mae arweinyddiaeth yn allweddol ar gyfer cyflawni llawer o'r cyfleoedd a restrir uchod yn llwyddiannus, arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru, ar lefel Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr sefydliadau sector cyhoeddus, mae hefyd angen i sefydliadau gyflogi ymarferwyr arwain gwirfoddolwyr sgilgar ar lefel strategol.
- **Diwylliant anghynhwysol yn y sefydliad:** gall agwedd 'ni a nhw' at wirfoddolwyr a'r cyhoedd fygwth llwyddiant y broses o ddefnyddio gwirfoddolwyr ac ymgysylltu â dinasyddion.
- **Methu â mesur manteision gwirfoddoli neu rannu hynny gyda'r penderfynwyr:** ceir weithiau densiwn rhwng yr hyn sy'n bwysig i bobl a'r hyn sy'n fesuradwy. Gall prosiectau sy'n dangos ffyrdd llawn dychymyg o gynnwys dinasyddion i gyflenwi

**(M)**

Yn 2017, fe wnaeth **Abertawe Dinas Noddfa** gasglu ynghyd sefydliadau lleol sy'n defnyddio gwirfoddolwyr, gan gynnwys y rheini sy'n geiswyr lloches a ffoaduriaid, i drafod y manteision a'r pryderon a geir wrth weithio gyda'i gilydd ac i ddysgu gwersi oddi wrth ei gilydd. Fel penllanw i'w gwaith cynhyrchwyd [canllaw arferion da](#), a [ffilm fer](#), a lansiwyd yn ystod wythnos gwirfoddolwyr yn 2017, gan amlygu'r ffordd orau o gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid fel gwirfoddolwyr.

Mae sefydliadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr yn aml yn chwarae rôl i herio camsyniadau a rhagfarn drwy recriwtio o blith amrywiaeth eang a chynhwysol o wirfoddolwyr a gan feithrin cysylltiadau gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda ffoaduriaid, cymunedau mudwyr a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

<sup>2</sup> Mae WCVA yn parhau i ddadlau y dylid bod ar gael drefniadau cyllido sympathetig sy'n caniatáu i sefydliadau angori o'r fath gael mynediad at gyllid ar gyfer costau refeniw craidd; rhaglen ddatblygu sy'n ysgogi sefydliadau angori cymunedol organig sy'n eiddo i'r ardal lle mae cymunedau eu heisiau; cefnogaeth a mentora ar gael i helpu i feithrin eu datblygiad ac i elwa o sefydliadau angori profiadol sydd eisoes yn bodoli mewn mannau eraill; ymdrechion sympathetig yn cael eu gwneud i ganiatáu i sefydliadau angori gaffael asedau. Yn yr un modd, dylid gwneud ymdrechion i'w cadw pan fyddant yn cael anawsterau.

gwasanaethau cyhoeddus ddangos y ffordd drwy ddefnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau.

- **Peidio â chynnwys yr Undeb llafur:** mae methu â chynnwys Undebau Llafur i gytuno ar ffiniau priodol i rolau gwirfoddolwyr, neu eu cynnwys yn rhy hwyr yn y broses gynllunio, yn gallu arwain at wrthdaro ynglŷn â'r hyn sy'n briodol i wirfoddolwyr wneud. Gall [perthnasoedd da](#) gydag Undebau o'r dechrau helpu hyn.
- **Anghydraddoldeb yn y mynediad i wirfoddoli 'y bwlch gwirfoddoli':** dengys tystiolaeth o [Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2017](#)<sup>3</sup> anghydraddoldebau

#### (N)

Yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol yn 2017, aeth James Corfield, 19 oed, ar goll yn dilyn noson allan yn Llanfair ym Muallt. Yn dilyn ceisiadau lu ar y cyfryngau cymdeithasol am wirfoddolwyr i helpu i chwilio amdano, daeth yn amlwg y gallai [Canolfan Gwirfoddoli Powys \(PAVO\)](#) chwarae rhan allweddol i gynorthwyo'r gwasanaethau brys.

Dros ddau ddiwrnod, cafodd dros 400 o wirfoddolwyr eu cofrestru a'u dosbarthu gan PAVO i helpu yn yr ymgyrch. Yn dilyn y newyddion trist bod James wedi cael ei ddarganfod, cysylltodd ei deulu â PAVO i ofyn iddynt fynychu'r gwasanaeth coffa.

Meddai Andrew Twigger, o'r adran Cynllunio Brys yng Nghyngor Sir Powys ar y gwaith rhyngddynt a'r rôl y chwaraeodd y CGS: 'Roeddwn i wir eisiau darparu'r adeilad a'r arlwy. Heb PAVO ni fyddai'r Ganolfan Derbyn Gwirfoddolwyr wedi bod hanner mor effeithlon nac effeithiol.'

ychwanegu rhwystrau rhag gwirfoddoli. Gall cysylltiadau cadarn â CGSau a sefydliadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr yn y trydydd sector helpu cyrff cyhoeddus i weithio o amgylch y cyfyngiadau hyn (gweler Bocs N).

- **Newid mewn deddfwriaeth:** gall y gofyn i wirfoddolwyr fodloni gofynion hyfforddiant, er enghraifft newidiadau diweddar yn y rheolau i hyfforddiant gyrwyr gwirfoddol, fod yn rhy ddrud, gyda chanlyniadau difrifol posibl i sectorau megis Cludiant Cymunedol

yn y ffordd y mae pobl yn gwneud gwaith gwirfoddol yng Nghymru yn unol â'u cefndir cymdeithasol-economaidd, cyrhaeddiad addysgol a'u cyfrifoldebau gofalu. Golyga hyn fod mynediad i fanteision gwirfoddoli hefyd yn anghyfartal. Gall gweithio'n aml-asiantaeth ar draws asiantaethau Sector Cyhoeddus a Thrydydd Sector helpu i wrthsefyll hyn (gweler Bocs M).

- **Cyfyngiadau sefydliadol:** gall prosesau rhy fiwrocraidd ddal sefydliadau'n ôl (ee polisïau a gweithdrefnau lefel uchel nas ysgrifennwyd gyda gwirfoddolwyr mewn golwg). Craffir yn barhaus ar gyrrff cyhoeddus a thueddant i osgoi risgiau, ac mae hynny'n

#### (O)

Mae [Gwasanaeth Cynorthwywyr Marie Curie](#) yn recriwtio gwirfoddolwyr sy'n cynnig cwmniaeth i bobl sy'n byw â salwch terfynol. Meddai Sue, sy'n gynorthwydd gwirfoddol, am ei phrofiad yn cadw cwmni i un unigolyn: 'Roedd hi wastad yn bositif, roeddwn i'n chwerthin llawer yn ei chwmmi. Bydden ni'n sgwrsio am oriau... fe wnewch chi'n aml ddweud mwy wrth ddiethriaid nag wrth eich teulu'.

Mae'r prosiect hefyd yn defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer rolau allweddol megis Gwirfoddolwr Arweiniol i recriwtio, Llysgennad gwirfoddolwyr i hybu'r prosiect as Asesydd gwirfoddolwyr i gwrdd ag unigolion a'u teuluoedd i'w paru â'r cynorthwydd mwyaf addas.

<sup>3</sup> Cyflwynodd tîm Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ganlyniadau manwl yn ymwneud â chwestiynau yn yr arolwg ar wirfoddoli i VWN ar 16 Tachwedd - gofynnwch i WCVA am gopi o'r cyflwyniad.



Ile mae cynifer ag 80% yn gweithredu'n wirfoddol.

- **Ffocws o'r brig i lawr:** os nad yw dyluniad y rolau gwirfoddoli wedi'u modelu ar egwyddorion cyfranogol, gall gwaith gwirfoddol gael ei yrru gan angen sefydliadol yn hytrach na gan beth mae cymunedau angen ac eisiau. Modelau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i ddylunio a chynllunio sy'n dangos yr arfer gorau gan gynnwys gwirfoddolwyr mewn ffordd gyfranogol (Bocs O).
- **Tanseilio/dyblygu rôl sefydliadau Trydydd Sector gan gynnwys CGSau:** gellir lliniaru'r risg hon drwy weithio'n agos mewn partneriaeth â chydweithredu'n glos i archwilio'r cyfleoedd, dull sy'n sylfaenol i ddatblygiad y papur hwn (gweler Bocs J).

## 7 Dyfodol Gwirfoddoli yn y Sector Cyhoeddus

*'...cynllunio gwasanaethau fel bod gofod yn cael ei greu lle gall gwirfoddoli ddigwydd yn greadigol a naturiol...gwahoddir pobl i gyfrannu...ar ganlyniadau y mae'r ffocws, heb fod yn rhy llym wrth bennu'r atebion...Gallu pobl i greu, dychmygu a chyfleu sy'n bwysig, ac yna integreiddio hyn i strwythur sut rydym yn gwneud pethau.'*

*Fiona Liddell, Rheolwr Datblygu Gwirfoddoli, WCVA*

Nod VWN yw i'r canlynol fod yn wir am wirfoddoli a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y deng mlynedd nesaf:

- ❖ Mae gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol ym maes cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn lle bywiog lle mae amrywiaeth eang o fodolau a dulliau yn ffynnu, gan ymgysylltu â phobl mewn ffordd sy'n grymuso unigolion a chymunedau i hawlio perchnogaeth.
- ❖ Mae gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol yn chwarae rôl ystyrlon ym mywydau pobl o bob oedran a chefnidir yng Nghymru.
- ❖ Mae ein model ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi lle canolog i ddinasyddion wrth inni ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.
- ❖ Mae sefydliadau cyhoeddus wedi mabwysiadu'r nod o *gynyddu a chefnogi gweithredu cymdeithasol* fel rhan o'u diben strategol.
- ❖ Mae gwirfoddoli yn hygyrch i'r rhan fwyaf o bobl ac fe'i cydnabyddir fel rhan ganolog o gynnal ffordd o fyw iach ac ymdeimlad o les.
- ❖ Mae gwirfoddoli ym maes cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei gynllunio'n dda a darperir adnoddau digonol ar gyfer hynny, gydag ymagweddau priodol at risgiau, gan alluogi atebion creadigol a phartneriaethau i ffynnu.



- ❖ Mae cyfranogiad a gweithredu cymdeithasol yn ychwanegu gwerth i rolau staff cyflogedig heb eu disodli.
- ❖ Ceir amrywiaeth eang o lwybrau at wirfoddoli, o fewn rolau sy'n addas ar gyfer amrywiol sgiliau, diddordebau a chymhelliannau dros wirfoddoli ac mae digon o bosibiliadau i gyfrannu'n greadigol i'r arlwy sydd ar gael.
- ❖ Mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yn arwain drwy esiampl mewn gwaith gwirfoddol, gyda'r holl staff yn cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol yn rheolaidd. Caiff cyllidebau eu cronni a blaenoriaethau strategol eu cysoni mewn ffordd sy'n cefnogi cyfranogiad gwirfoddolwyr ac yn darparu adnoddau ar gyfer hynny.

## 8 Cwestiynau i benderfynwyr

- ❖ Pa adnoddau a wnewch eu hymrwymo i ganiatáu i wirfoddoli gael ei archwilio a'i ddatblygu'n 'organig', hy heb fod â diweddbwynt clir mewn golwg?
- ❖ Sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ariannu cefnogaeth gyllidebol graidd i Sefydliadau Angori sy'n ganolog i lawer o'r gwaith hwn?
- ❖ Pa gyllidebau y gellid eu cronni i annog pobl i fod yn fwy creadigol wrth weithio mewn partneriaeth?
- ❖ Sut ydym yn annog creadigrwydd a hyblygrwydd wrth gynnwys gwirfoddolwyr a hefyd gynnal ffiniau priodol a dull cymesur o reoli risgiau?
- ❖ I ba raddau y mae eich (Awdurdod Lleol) chi yn meddwl am botensial gwirfoddoli mewn cylch gorchwyl sirol ehangach, yn hytrach na dim ond fel sefydliad? Pwy yw eich cymheiriaid/partneriaid?
- ❖ A roddir gwirfoddoli ar agenda'r cyfarfodydd iawn - ac yn ddigon buan mewn prosesau cynllunio? Sut gallwn sicrhau ei fod?
- ❖ Pa dri pheth y gwnewch chi fel arweinydd ymrwymo i'w gwneud, i fwrw'r agenda hon ymlaen?

## 9 Camau Nesaf

Hoffai VWN ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lunio'r papur hwn.

I fwrw hyn ymlaen, hoffem gydweithio â nifer fechan o Awdurdodau Lleol ar draws Cymru i bwysu a mesur effaith rhoi rhai o'r syniadau yn y papur hwn ar waith.

Ym mis Tachwedd 2017 aeth aelodau o VWN i'r gynhadledd undydd 'People Helping People' a gynhaliwyd ar y cyd gan Gyngor Caerefrog a CGS Caerefrog. Cynhwysai'r gynhadledd hon ystod eang o sefydliadau cymunedol, Darparwyr Trydydd Sector ac asiantaethau'r Sector Cyhoeddus, a ddaeth ynghyd i archwilio sut gallent weithio gyda'i gilydd i gynyddu gweithredu cymdeithasol a gwirfoddoli yn y ddinas. Gellid defnyddio dull tebyg i sbarduno sgysiaau ar draws Gymru, gan ddefnyddio ein profiad blaenorol o bartneriaethau a phrosiectau arloesol.



## Am wybodaeth bellach

Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector. Swyddfa Archwilio Cymru Ionawr 2017 <http://www.archwilio.cymru/cy/system/files/publications/Third-sector-funding-cym.pdf>

Chwefror 2018

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH  
Desg Gymorth 0800 2888 329 Rhif Cofrestru Elusen 218093 Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299

# Atodiad

## Sefydliadau sy'n aelodau o Rwydwaith Gwirfoddoli Cymru

3Gs Development Trust Limited  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Gweithredu dros Blant (Prif Swyddfa'r DU)  
Action On Hearing Loss Cymru  
Barnardo's Cymru  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Blind Veterans UK, Canolfan Llandudno  
Breast Cancer Care Cymru  
Amgueddfa ac Oriol Gelf Brycheiniog  
Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig - Cangen Gogledd Cymru  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Cyngor Caerdydd  
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)  
Gyrfa Cymru  
Cartrefi Cymru - Pen-y-bont ar Ogwr  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion - CAVO  
Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru  
Cyngor Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymru  
Creating Enterprise CIC  
CWVYS  
Bwrdd Iechyd Cwm Taf - Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg  
Discovery - Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe  
Tim Cymorth Ieuencid Ethnig EYST  
Evangelical Alliance Cymru  
Growing Space  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)  
Bwrdd Iechyd Hywel Dda SA31 1DS  
Cymorth Canser Macmillan  
Gofal Canser Marie Curie  
Cymorth Canser Macmillan  
Gofal Canser Marie Curie  
Mind Merthyr a'r Cymoedd  
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Mind Cymru  
Mirus - Cymru  
Cyngor Sir Fynwy (NP15 1GA)  
Cerdd â Gofal  
Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Promo Cymru Trading Ltd  
Pencadlys RSPB Cymru  
Sandy Clubb  
Shelter Cymru  
SNAP Cymru  
Chwaraeon Cymru  
St John Cymru - Wales  
Stonewall Cymru  
Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd  
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe - SCVS  
Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS)  
Gofal Canser Tenovus  
The Wallich  
Time Banking Wales  
Volunteering Matters  
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)  
Llywodraeth Cymru  
Cymdeithas Chwaraeon Cymru  
Menter yr Ifanc